Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig (Toiledau Cyhoeddus)

Gorffennaf 2019

Cyflwyniad

1. Ystyriodd Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau'r Cynulliad (y Pwyllgor) y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig (Toiledau Cyhoeddus) ar 11 Gorffennaf 2019.

Y cefndir

2. Ar 25 Mehefin 2019 gosododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil. Ar 2 Gorffennaf 2019, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol at y Pwyllgor hwn i'w ystyried, gan nodi mai'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad oedd 11 Gorffennaf 2019.

3. Mae dadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i threfnu yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Gorffennaf 2019, i geisio cydsyniad y Cynulliad i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil. Gan hynny, dim ond pythefnos fydd ar gael ar gyfer y gwaith craffu.

4. Cyflwynwyd y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 18 Mehefin 2019. Mae'r hynt y Bil drwy'r Senedd yn debygol o fod yn gyflym, a threfnwyd yr Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 10 Gorffennaf 2019. Mae'r amserlen graffu, felly, yn dynn ond mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r Cynulliad gael cyfle i graffu ar y Bil cyn toriad yr haf.

Trosolwg o'r Bil

5. Mae'r Bil yn gweithredu ymrwymiadau a wnaed gan Ganghellor y Trysorlys yng Nghyllideb yr Hydref 2018 i roi 100% o ryddhad ardrethi annomestig (NDR) ar gyfer toiledau cyhoeddus pwrpasol yn Lloegr. Diben y Bil, yn ôl Llywodraeth y DU, yw lleihau costau cynnal a chadw cyfleusterau o'r fath i'w helpu i aros ar agor.

6. Ar hyn o bryd mae toiledau cyhoedus pwrpasol yng Nghymru a Lloegr yn cael eu hasesu at ddibenion NDR yn yr un modd ag eiddo annomestig arall - mae'r Bil yn rhoi rhyddhad ardrethi annomestig, gan ei ostwng i sero, ar gyfer hereditament yng Nghymru a Lloegr sy'n cynnwys dim ond toiledau cyhoeddus, neu'n cynnwys toiledau cyhoeddus yn bennaf; ac at ddibenion cysylltiedig. Mae'r darpariaethau'n ymwneud â thoiledau pwrpasol sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio, p'un a ydynt yn cael eu gweithredu gan gyrff preifat neu gyrff cyhoeddus. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi bod nifer o awdurdodau lleol wedi cau eu toiledau cyhoeddus yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae rhai wedi trosglwyddo eiddo o'r fath, neu'r cyfrifoldeb dros eu cynnal, i gyrff eraill. Drwy ddileu'r atebolrwydd i dalu ardrethi ar gyfleusterau o'r fath, bydd y gost o'u cynnal a'u cadw'n gostwng a bydd hynny'n helpu i'w cadw ar agor.

7. Mae angen deddfwriaeth sylfaenol i ddiwygio Adran 43 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1998 sy'n nodi sut y cyfrifir faint o NDR y dylai trethdalwr ei dalu ar eiddo a feddiennir. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

Cymhwysedd deddfwriaethol

8. Mae trethi lleol i ariannu gwariant awdurdodau lleol (er enghraifft, y dreth gyngor ac ardrethi annomestig) yn eithriadau i'r polisïau cyllidol, economaidd ac ariannol a gedwir yn ôl yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (paragraff 15 o Atodlen 7A) . Gan hynny, mae gan y Cynulliad gymhwysedd i basio deddfwriaeth sylfaenol ar faterion yn ymwneud ag ardrethi busnes.

Y darpariaethau yn y Bil y gwneir cais am gydsyniad â nhw

9. Mae cydsyniad y Cynulliad yn cael ei geisio ar gyfer y Bil cyfan i'r graddau y mae'n ymwneud â Chymru. Dyma'r darpariaethau perthnasol, a gafodd eu cynnwys pan gyflwynwyd y Bil:

Cymal 1:

10. Mae Cymal 1 yn diwygio Rhan 3 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (Deddf 1988) drwy fewnosod rhyddhad newydd yn adran 43, yn isadran (4I). Mae hyn yn darparu mai sero yw'r swm trethadwy mewn perthynas ag hereditament sy'n cynnwys dim ond toiled cyhoeddus, neu'n cynnwys toiledau cyhoeddus yn bennaf, ac yn gwneud newid canlyniadol yn adran 43(4) i'r fformiwla gyffredinol a ddefnyddir i gyfrifo swm trethadwy hereditament, er mwyn sicrhau ei fod yn ddarostyngedig i'r rhyddhad newydd. Effaith y diwygiad yn is-adran (4) yw mai'r rhyddhad yn adran 43(41) gaiff ei weithredu os yw'r hereditament yn ddarostyngedig i fwy nag un math o ryddhad.

Cymal 3:

11. Mae Cymal 2 yn gwneud diwygiadau canlyniadol sy'n adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i Ddeddf 1988 gan gymal 1.

Cymal 3:

12. Mae Cymal 3 yn nodi bod y Ddeddf yn ymestyn i Gymru a Lloegr.

Cymal 3:

13. Mae Cymal 4 yn amlinellu'r teitl byr a'r darpariaethau cychwyn.

Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru mewn Bil y DU

14. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn gwneud y darpariaethau hyn ar gyfer Gymru yn y Bil am resymau amseriad a chysondeb fel bod toiledau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu trin yn gyfartal â'r rheini yn Lloegr. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn:

- Mae'r posibilrwydd o wneud y newid hwn drwy gyfrwng Bil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wedi'i ddiystyru gan nad oes cyfle deddfwriaethol addas yn yr amserlen i alluogi Asiantaeth y Swyddfa Brisio i gwblhau'r gwaith prisio angenrheidiol;
- Pe bai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Bil yn ddiwedarach, byddai hynny'n arwain at lai o sicrwydd i fusnesau a threthdalwyr eraill yng Nghymru yn y Bil; a

- Bydd y newid yn cyfrannu at gyflawni amcanion iechyd y cyhoedd.

Ein barn ni

15. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn credu bod y Bil yn gyfrwng deddfwriaethol priodol i roi'r newid hwn ar waith yng Nghymru.

16. Mae'r Pwyllgor yn nodi y byddai gostwng yr atebolrwydd ardrethi ar gyfer toiledau cyhoeddus i sero yn dileu'r angen i gyhoeddi biliau ardrethi ar gyfer eiddo o'r fath ac amcangyfrifir. Amcangyfrifir mai'r atebolrwydd ardrethi presennol ar gyfer toiledau cyhoeddus yw tua £450,000.

17. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod Aelodau o bob plaid a gynrychiolir yn y Cynulliad wedi sôn ers rhai blynyddoedd am bwysigrwydd sicrhau bod toiledau cyhoeddus ar gael, a'r effaith niweidiol ar y cyhoedd pan gânt eu cau, ac yn enwedig ar bobl hŷn, pobl anabl a phobl â phlant ifanc. Mae'r mesur a gynigir gan y Bil yn hyrwyddo'r amcan cysylltiedig ag iechyd y cyhoedd o geisio cadw mwy o doiledau cyhoeddus ar agor.

18. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y Bil yn gwneud darpariaeth at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, a bod angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog 29. Nid yw'r Pwyllgor yn gweld unrhyw reswm i wrthwynebu i'r Cynulliad gytuno ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Memorandwm.